

**CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL**

*Cadeirydd: Paul Weston*

Nos Lun Medi 7fed 2015 am 7.30 y.h.

**Cofnodion**

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Alun Edwards, Dewi Evans ac Alun Owen.
2. **Presennol:** Cyng. Gari Jones, Edmund Rees, Gwynfor Roberts a Paul Weston.
3. **Cod Ymddygiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Gorffennaf** cynigiwyd yn gywir gan Gari Jones gydag Gwynfor Roberts yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
  - 5.1. Wal terfyn o amgylch y toiledau cyhoeddus – derbyniwyd e-bost gan Steven Teale yn cadarnhau bydd y gwaith o amgylch y toiledau yn cael ei wneud hefyd caniatâd i osod basgedi blodau ar wal y toiled. Gofynnwyd hefyd am gadarnhad y bydd Cyngor Conwy yn gyfrifol os bydd y gwartheg yn achosi difrod i'r wal hyn ar ôl tynnu'r clawdd weiers. Cafwyd hefyd gadarnhad ar hyn.
  - 5.2. Biniau Baw Cŵn – Wedi cysylltu gyda Chyngor Conwy yn gofyn iddynt wagio'r bin yn y maes parcio tu ôl i Westy'r Foelas, hefyd ail osod yr un wrth y Giler. Gofynnwyd oes modd cael un bin arall a hyn wrth Gapel Bethel. Bydd rhaid disgwyl tan ddaw'r cyflenwad newydd i mewn.
6. **Gohebiaeth:**
  - 6.1. C.B.S.C. Wedi derbyn yr ail-daliad o'r Presept o £1216.00.
7. **Un Llais Cymru:**
  - 7.1. Cafwyd adroddiad o'r Pwyllgor Blynyddol gan Edmund Rees. Dywedodd nad oedd llawer wedi mynychu'r cyfarfod. Mater a drafodwyd yn y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol oedd cynnwys y Papur Gwyn ar ddiwygio Llywodraeth Leol. Pryderon am y newidiadau a gynhigir gan y llywodraeth, yn arbennig uno rhai o'r Cynghorau Tref a Chymuned. Teimlad fod y cyrsiau yn rhy ddrud.
  - 7.2. Darllenwyd allan y naw cynnig sy'n cael ei drafod a'i mabwysiadu yn y Cyfarfod Blynyddol yn Llanelwedd.
8. **Mantolen Ariannol:**

Archwiliad Blynyddol am y flwyddyn hyd 31ain Mawrth 2015. Derbyniwyd yn ôl a chadarnhawyd adroddiad glân ac eithrio'r pwyntiau am y saith maes allweddol. Mabwysiadwyd y rhain am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2015 gan nad oedd cofnod ei bod wedi cael ei trafod yn y blynyddoedd blaenorol ac wedi egluro mewn llythyr i'r Cyfrifyddion. Penderfynwyd ein bod yn cynllunio'r gyllideb hefyd edrych dros yn saith maes allweddol ym mis Rhagfyr cyn ei mabwysiadu mis Mawrth rhagof bod angen addasu neu ychwanegu atynt..
9. **Zurich Yswiriant:**

Ar ôl derbyn pris am yswirio'r gysgodfa bysus o fel a ganlyn:-  
£10,690 – premiwm blynyddol fydd £61.19 yn cynnwys IPT o 6%  
£12,840 – premiwm blynyddol fydd £73.50 yn cynnwys IPT o 6%  
Cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Edmund Rees yn eilio a phawb yn gytûn ein bod yn yswirio y cysgodfa bysus am £61.19 yn ychwanegol i'r premiwm o£197.01 yn gwneud cyfanswm o £258.20 yn cynnwys 6% IPT.
10. **Talu Anfonebau:**
  - 10.1. Hacker Young – cynigiodd Edmund Rees gyda Gwynfor Roberts yn eilio talu'r anfoneb o £80.00 + TAW £16.00 = **£96.00** gyda siec rhif **100247**.
  - 10.2. Zurich – cynigiodd Gari Jones gyda Edmund Rees yn eilio talu'r anfoneb o **£258.20** gyda siec rhif **100250**.
  - 10.3. Crwstech – cynigiodd Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio talu'r anfoneb am drwsio'r gliniadur o **£30.00** gyd siec rhif **100248**.
  - 10.4. Costau'r Clerc am 4 mis o Ebrill i Orffennaf – cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Gari Jones yn eilio talu'r anfoneb o **£260.60** gyda siec rhif **100249**.
11. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts**

Nid oedd y Cynghorydd Sirol yn bresennol yn y cyfarfod.

12. **Unrhyw fater arall:**

12.1. Gofynnwyd a oes modd cael diffibrilwyr i'r pentref gan fod trigolyn wedi meddwl cyfrannu tuag at un. Angen holi os ydyw yn dal a diddordeb mewn cyfrannu ar glerc i holi'r gost ac os oes grantiau ar gael.

12.2. Angen archebu sgip ar gyfer mis Tachwedd.

12.3. Angen archebu Coeden 'dolig.

13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Hydref 5ed 2015 am 7.30 y.h.**

05.10.15

\*\*\*\*\*

